**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CROESFAN ARFAETHEDIG I AR GYLCHFAN CYFNEWIDFA DEWI SANT, EWLO**

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Gyfochrog / Beicwyr a Cherddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Cylchfan Cyfnewidfa Dewi Sant, Ewlo fel lleoliad addas i osod cyfleuster Croesfan Gyfochrog / Beicwyr. Mae gweithredu'r gwelliannau teithio llesol arfaethedig, yn gwasanaethu fel elfen hanfodol o gynnig cludiant integredig llawer ehangach a'r pecyn o gynlluniau sydd yn mynd rhagddo o fewn yr ardal leol ar hyn o bryd. Nid yn unig fydd y cynllun yn darparu mynediad hanfodol rhwng Shotton, Queensferry, Ewlo a Phenarlâg, bydd hefyd yn ffurfio agwedd allweddol o goridor Teithio Llesol strategol ehangach, gan alluogi mynediad at ysgolion, gwasanaethau a chynigion ehangach (h.y. cynigion Teithio Llesol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar hyd yr A494 / mynediad at gludiant cyhoeddus mewn canolfannau allweddol ar gyfer teithio ymlaen i safleoedd cyflogaeth allweddol). Bydd y cynigion yn darparu coridor cludiant cynaliadwy fforddiadwy ar gyfer pobl leol, yn arbennig y rhai heb fynediad at gar. Bydd hyn yn darparu mynediad mwy diogel a chynaliadwy at addysg, cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill sydd yn anodd cael mynediad atynt ar hyn o bryd.

Bydd y gwaharddiad arferol ar gerbydau yn parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y briffordd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar ddwy ochr y groesfan, yn weithredol.

Gellir archwilio copi o'r Rhybudd hwn a chynlluniau sy'n dangos y ffyrdd y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Gysylltu Bwcle, Llyfrgell Bwcle, The Precinct, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF.Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 9 Ionawr 2026 neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/SDIR/Parallel


**ATODLEN**
**Gosod Croesfan Gyfochrog / Beicwyr a Cherddwyr Newydd.**

**Cyfnewidfa Dewi Sant, Ewlo –** B5125 a Parc Dewi Sant

Dyddiedig dydd Gwener 19 Rhagfyr 2025

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Cyngor Sir y Fflint,
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami, Yr Wyddgrug.
CH7 6LG.




CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: LS

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 329864 366486

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|

# St David's Roundabout Ewloe

Croesfannau Cyfochrog / Beicwyr a Cherddwyr Arfaethedig

Proposed Parallel / Cycle and Pedestrian Crossings (Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER

| HT/25SDR | 101 | P1 |
|---|---|---|